

Prosiect
X

Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

Castell Tywod



Jan Burchett
Sara Vogler

DRAKE

Jon Stuart

Yn y stori yma



Jac



Hops




Mam Jac



Mair (chwaer Jac)

Y castell tywod



baner

tŵr

rhagfuriau

twannel


pont

ffos

Roedd Jac a Hops ar y traeth. Roedden
nhw gyda mam Jac a'i chwaer fach, Mair.

“Edrychwch ar y castell tywod yna draw
ger y creigiau,” dywedodd Jac. “Rasia i di
yno!”

Rhedodd Jac a Hops bant i archwilio.



Syllon nhw ar y castell tywod. Roedd yn rhyfeddol. Roedd baner bapur yn cyhwfan wrth un o'r tyrau. Roedd y waliau wedi eu haddurno â chregyn lliwgar a gwymon. Roedd yno ffos wag.



“Waw!” ebychodd Jac. “Sgwn i pwy a’i hadeiladodd?”

Edrychodd Hops i fyny ac i lawr y traeth. “Dydyn nhw ddim yma nawr,” gwenodd. Cydiodd Hops yn ei watsh.


“Aros! Falle gwelith rhywun ni,” dywedodd Jac.



Cuddiodd Jac a Hops y tu ôl i graig fawr.
Troesant ddeialau eu watshis ac ...



Edrychodd Jac a Hops y
meicro-ffrindiau allan o'u cuddfan.
“Iawn,” meddai Hops. “Bant â ni.”





Rhuthron nhw dros y bont a thrwy dwnnel.
Ymestynnai'r waliau tywod uwch eu pennau.
“Mae fel castell go iawn!” dywedodd Jac.
“Dere i ni fynd i fyny ar y rhagfuriau,”
dywedodd Hops.


An illustration of two boys in a museum setting. The boy in the foreground, with blonde hair and wearing a red t-shirt with black stripes on the sleeves and black pants, is crouching on a large, light-brown rock. He is looking towards the right with a curious expression. The boy in the background, with dark skin and hair, is wearing a blue and white long-sleeved shirt and blue jeans. He is also crouching on a similar rock, looking towards the right. The background is filled with several large, light-brown, ribbed fossil shells. A speech bubble from the boy in the background contains the text "Cyntaf i'r top!".

Cyntaf i'r top!

Fi yw Hops Fflamgoch,
Brenin y Castell!



Nag wyt ddim.
Jac Nerthol sy'n rheoli.
Iawn?



Beth oedd hynna?


Cuddia!



Doedd Mair ddim yn edrych fel
chwaer *fach* Jac ragor. Roedd hi ben ac
ysgwyddau'n uwch na nhw ac yn dal bwced.
Roedd yna *SBLASH!* uchel.

“Beth sy'n digwydd?” ebychodd Hops.

“Mae Mair wedi rhoi dŵr yn y ffos,”
dywedodd Jac.



Sbeciodd Jac a Hops dros y wal.
“Ble mae hi nawr?” gofynnodd Hops.
“Yn nôl rhagor o ddŵr,” dywedodd Jac.
“Mas o 'ma!”

Llithron nhw i lawr y grisiau cregyn
llithrig.




Roedd Mair 'nôl yn fuan. Rhoddodd fwy o
ddŵr yn y ffos. Dechreuodd waliau'r castell
chwalu.

“Rhaid dianc!” gwaeddodd Jac.

Rhedon nhw drwy'r twnnel hyd nes
cyrraedd y bont.





Ymddangosodd craciau enfawr yn y tywod. Roedd yna drwst dwfn. Yna torrodd y bont.

Edrychodd Hops ar Jac. “Does dim ffordd allan!” gwaeddodd.

Roedd mwy a mwy o dywod yn llithro i'r dŵr.
“Bydd raid i ni neidio amdani,” gwaeddodd
Jac.

Siglodd Hops ei ben. “Mae’n rhy lydan.”
“Yna nofiwn ni!” meddai Jac.



CLEC! Saethodd crafangau miniog allan o'r ffos.

Tynnodd Hops Jac allan o gyrraedd y crafangau oedd yn clician.

"Waw! Bron i fi fod yn ginio i'r cranc yna!" chwythodd Jac.

"Beth wnawn ni nawr?" gofynnodd Hops.

"Rhywbeth cyflym," meddai Jac. "Mae'r llanw'n dod mewn."




CLEC!

Daeth y tonnau'n nes. Yna daeth un don enfawr yn syth amdanyn nhw.

"Cymer ofal!" gwaeddodd Jac.

Rhuthrodd at Hops gan ei wthio 'nôl i'r twnnel. Golchodd y don dros y castell. Dechreuodd y waliau ddymchwel.





Yna sylwodd Jac ar rywbeth.


“Edrych!” gwaeddodd.

“Hen fflip-fflop?” dywedodd Hops. “Pa werth yw honna?”

“Dringa arni,” dywedodd Jac. “Pan ddaw’r don nesaf fe syrffiwn ni i ddiogelwch.”

Dringon nhw ar y fflip-fflop.
Gafaelon nhw yn y strap plastig â'u holl
nerth.

“Mae'r ewyn yn uchel!” gwaeddodd Hops.
Trawodd ton newydd y castell.
Dechreuodd eu fflip-fflop arnofio.



Daliodd y don yn y fflip-fflop a'u gwthio
nhw 'mlaen. Sgrechiodd Jac. Bonllefodd
Hops.

“Dal yn dynn!” gwaeddodd Jac.



Syrffion nhw heibio i weddill y castell ac
i fyny ar y traeth. Safodd y fflip-fflop ar
dywod sych.





“Ble rydych chi’ch dau wedi bod?”
gofynnodd mam Jac.

“Ym, padlo,” meddai Jac yn gyflym.

“Padlo? Ond rydych chi’n wlyb domen!”

“Cawson ni ein bwrw gan don!” meddai Jac.

“Do,” dywedodd Hops. “Ton enfawr!”

Byddwch yn ddiogel

Gall y traeth fod yn hwyl. Ond os yw'n boeth ac yn heulog mae angen i chi fod yn ddiogel hefyd. Felly cofiwch:

- Wisgo crys
- Ddefnyddio eli haul
- Wisgo het

